



Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru

National Independent
Safeguarding Board Wales

Mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb

Canllawiau i'r asiantaethau sy'n ymwneud
â diogelu oedolion a phlant yng Nghymru

Safeguarding is everyone's responsibility

A guide to agencies involved in
safeguarding adults and children in Wales

Gwybodaeth am y cyfeirlyfr hwn

Mae'r cyfeirlyfr hwn yn rhoi trosolwg o waith llawer o wahanol asiantaethau sy'n ymwneud â diogelu oedolion a phlant yng Nghymru.

Rydyn ni wedi eu grwpio mewn pedwar categori, ac yn darparu disgrifiad o rôl a chyfrifoldebau pob asiantaeth neu grŵp. Lle bo hynny'n briodol, rydyn ni hefyd wedi cynnwys dolen gwefan sy'n rhoi rhagor o wybodaeth.

Dydy'r cyfeirlyfr hwn ddim yn ymwneud â beth i'w wneud os oes gennych bryder ynghylch diogelu rhywun. Os ydyn nhw mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr Heddlu ar unwaith ar 999. Os na, ffoniwch eich Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol cyn gynted â phosib i rannu'ch pryderon.

About this directory

This directory gives an overview of the work of many different agencies involved in safeguarding adults and children in Wales.

We have grouped them in four categories, and provide a description of the role and responsibilities of each agency or group. Where appropriate, we have also included a website link for more information.

This directory is not about what to do if you have a concern about the safeguarding of someone. If they are in direct danger, call the Police immediately on 999. If not, telephone your local Social Services as soon as possible to share your concerns.

Cynnwys

Contents

TROSLWGA CHYD-DREFNU	Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru 4 Byrddau Diogelu Rhanbarthol 5 Grŵp Cadeiryddion Byrddau Diogelu Rhanbarthol 6 Llywodraeth Cymru 7	OVERSIGHT AND CO-ORDINATION	National Independent Safeguarding Board Wales 4 Regional Safeguarding Boards 5 Regional Safeguarding Board Chairs Group 6 Welsh Government 7
DIOGELU'R DDARPARIAETH	Awdurdod lleol 8 Bwrdd Iechyd Lleol a Ymddiriedolaeth y GIG 9 Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi 10 Gwasanaethau'r Farnwriaeth a Llysoedd 11 Heddlu 12 Partneriaid eraill 13	SAFEGUARDING DELIVERY	HM Prison and Probation Service 10 Judiciary and Courts Services 11 Local Authorities 8 Local Health Boards and NHS Trusts 9 Police Forces 12 Other Partners 13
AROLWG STATUDOL, RHEOLIAD A GWELLIANT	Addysg a Gwella Iechyd Cymru 14 Archwilio Cymru 15 Arolygiaeth Gofal Cymru 16 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 17 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus 18 Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol 19 Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau 20 Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant 21 Cyngor y Gweithlu Addysg 22 Estyn 23 Gofal Cymdeithasol Cymru 24 Partneriaethau Diogelwch Cymunedau 25	STATUTORY INSPECTION, REGULATION, AND IMPROVEMENT	Audit Wales 15 Care Inspectorate Wales 16 Community Safety Partnerships 25 Education Workforce Council 22 Estyn 23 Health Education and Improvement Wales 14 Healthcare Inspectorate Wales 17 Older People and Children's Commissioner Wales 21 Police and Crime Commissioners 20 Public Service Boards 18 Regional Partnership Boards 19 Social Care Wales 24
CYNGOR ANSTATUDOL A GWELLIANT	Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru 26 Cyrff cynrychioliadol â Ddiddordeb Mewn Diogelu 27 Rhwydwaith CGGC (WCVA) ar gyfer Diogelu 28 Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru) 29 Uned Atal Trais Cymru 30 Ymgynghorwyr Cenedlaethol Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) 31	NON-STATUTORY ADVICE AND IMPROVEMENT	Representative Bodies with an Interest in Safeguarding 27 Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence National Advisors 31 WCVA Safeguarding Network 28 Wales National NHS Safeguarding Team 29 Wales Safeguarding Procedures Project Board 26 Wales Violence Prevention Unit 30



Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru
National Independent
Safeguarding Board Wales

<http://safeguardingboard.wales>

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

Mae BDAC yn hyrwyddo trefniadau diogelu effeithiol ar draws Cymru, yn cynorthwyo Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac yn cynghori Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae BDAC yn gorff statudol. Mae ganddo dair dyletswydd sylfaenol:

- Cynnig cymorth a chynghor i Fyrddau Diogelu Rhanbarthol a sicrhau eu bod yn effeithiol.
- Riportio ar ba mor ddigonol ac effeithiol ydy trefniadau diogelu plant ac oedolion yng Nghymru.
- Gwneud argymhellion i Weinidogion Llywodraeth Cymru sut y gellid gwella'r trefniadau hyn.

Mae'n delio â holl faterion diogelu ar draws y wlad gyda chyfrifoldeb arbennig dros gynnal trosolwg o drefniadau cenedlaethol; a rhanbarthol.



Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru
National Independent
Safeguarding Board Wales

<http://safeguardingboard.wales>

National Independent Safeguarding Board Wales

NISB promotes effective safeguarding arrangements across Wales, supports Regional Safeguarding Boards and advises Welsh Ministers.

NISB is a statutory body. It has three primary duties:

- To provide support and advice to Regional Safeguarding Boards and ensure that they are effective.
- To report on the adequacy and effectiveness of arrangements to safeguard children and adults in Wales.
- To make recommendations to the Welsh Ministers as to how those arrangements could be improved.

It is concerned with all safeguarding across the country with a particular responsibility to maintain an overview of national and regional arrangements.



Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol statudol aml-asiantaeth ar draws Cymru: Gogledd Cymru, Gwent, Cwm Taf Morgannwg, Gorllewin Morgannwg, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Chaerdydd a'r Fro.

Maen nhw'n sicrhau trefniadau gweithio effeithiol rhwng partneriaid yn eu rhanbarth. Mae partneriaid statudol yn cynnwys yr awdurdodau lleol, yr Heddlu, y bwrdd iechyd lleol a darparwyr gwasanaethau prawf ac adfer. Caiff pob Bwrdd ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae ganddo ddyletswydd statudol i helpu partneriaid i atal cam-driniaeth, ac i amddiffyn oedolion neu blant sy'n cael, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed. Maen nhw'n gwneud hyn trwy asiantaethau heriol a chefnogol yn eu rhanbarth ac yn gweithio ar y canlynol:

- Polisi a gweithdrefnau rhanbarthol a chenedlaethol.
- Codi ymwybyddiaeth o faterion diogelu.
- Mesur effeithiolrwydd pob asiantaeth arweiniol.
- Adolygu'r ymarfer a chynnig argymhellion i bartneriaid.
- Lledaenu arferion gorau, ymgymryd ag ymchwil a hyfforddiant.
- Cydweithredu â byrddau eraill a cheisio cyngor arbenigol.
- Dyrannu adnoddau i ariannu gwaith y Byrddau.
- Cyflwyno Cynllun Blynyddol ac Adroddiad i BDAC/NISB

Mae gan bob Bwrdd is-grwpiau i gyflawni eu gwaith ar gyfer plant ac oedolion, a swyddogaeth rheoli busnes i sicrhau ei fod yn effeithlon ac yn effeithiol.

Regional Safeguarding Boards

There are six statutory multi-agency Regional Safeguarding Boards across Wales: North Wales, Gwent, Cwm Taf Morgannwg, West Glamorgan, Mid and West Wales, and Cardiff and Vale.

They ensure effective working arrangements between partners in their region. Statutory partners include the local authorities, Police, local health board and providers of probation and rehabilitation services. Each Board is Chaired by a Director of Social Services and has a statutory duty to help partners prevent abuse, and protect adults or children who are experiencing, or are at risk of abuse, neglect or other kinds of harm. They do this through challenging and supporting agencies in their region and working on:

- Regional and national policy and procedures.
- Raising awareness of safeguarding issues.
- Measuring the effectiveness of each lead agency.
- Practice reviews and recommendations to partners.
- Disseminating best practice, undertaking research and training.
- Co-operating with other boards and seeking specialist advice.
- Allocating resources to fund the Boards work.
- Submitting an Annual Plan and Report to NISB.

Each Board has sub-groups to deliver their work for both children and adults, and a business management function to ensure it is efficient and effective.





Grŵp Cadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Mae Grŵp o holl Gadeiryddion y Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn cwrdd â'i gilydd yn rheolaidd a gyda phartneriaid cenedlaethol i gysylltu â'i gilydd ac i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwaith diogelu ar draws Cymru.

- Mae'r Grŵp yn rhannu gwybodaeth, profiadau, arferion gorau, ac atebion i ddatblygu safbwyntiau a pholisi a rennir fel grŵp.
- Mae'n cwrdd o leiaf bob chwarter a bwriedir iddo fod yn llinell gyfathrebu rhwng cadeiryddion, LIC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) a BDAC/NISB.
- Mae rheolwyr busnes y Byrddau Diogelu Rhanbarthol hefyd yn cyfarfod gyda'i gilydd yn rheolaidd ac mae eu cynrychiolwyr yn mynychu'r Grŵp Cadeiryddion i sicrhau bod y dolenni cyswllt yn rhai effeithiol.



Regional Safeguarding Boards Chairs Group

A Group of all the Regional Safeguarding Board Chairs meets regularly together and with national partners to liaise, and to agree priorities for safeguarding work across Wales.

- The Group shares information, experiences, best practice, and solutions to develop shared group positions and policy.
- It meets at least quarterly and is intended to be a communication line between chairs WG, ADSS and NISB.
- The business managers of the Regional Safeguarding Boards also meet together regularly and their representatives attend the Chairs Group to ensure there are effective links.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

<https://gov.wales>

Llywodraeth Cymru

Mae gweinidogion Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi polisi, canllawiau a pharatoi deddfwriaeth i sicrhau bod trefniadau ac arferion diogelu yn effeithiol yng Nghymru.

Mae'r Gweinidogion yn dosrannu adnoddau, cyhoeddi polisi, canllawiau a pharatoi deddfwriaeth. Mae Gweinidogion a'u swyddogion yn derbyn adroddiadau gan gyrff cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac yn cysylltu â nhw i fonitro sut mae'r trefniadau yn gweithio a nodi sut y gellir eu gwella.

Maen nhw hefyd yn cael gwybodaeth drwy adborth uniongyrchol gan gyrff cyhoeddus, proffesiynol, y llysoedd ac Aelodau'r Senedd ymhlith eraill.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

<https://gov.wales>

Welsh Government

Welsh Government Ministers issue policy, guidance and prepare legislation to ensure that safeguarding arrangements and practices are effective in Wales.

The Ministers allocate resources, issue policy, guidance and prepare legislation. Ministers and their officials receive reports from and liaise with national, regional and local safeguarding bodies to monitor how arrangements are working and identify how they can be improved.

They are also informed by direct feedback from the public, professional bodies, the courts, and Members of the Senedd amongst others.



22 awdurdod lleol

Mae 22 awdurdod lleol wedi eu diffinio'n ddaearyddol yng Nghymru. Mae gan bob un ddyletswydd statudol i ymchwilio ac ymateb i adroddiadau o gamdriniaeth, niwed neu esgeulustod yn eu hardal. Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd hon ac mae hyn yn cynnwys dyletswyddau i helpu pobl sydd wedi profi camdriniaeth, niwed neu esgeulustod ac i ddatblygu trefniadau a gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i atal camdriniaeth, niwed ac esgeulustod.

Gall awdurdodau lleol ofyn i asiantaethau partner gynnal ymholiadau diogelu ar eu rhan, ac mae'n ofynnol iddyn nhw gydymffurfio â cheisiadau o'r fath, oni bai eu bod yn anghydnaws â'u dyletswyddau eu hunain.

- Mae pob awdurdod lleol yn penderfynu sut i ymateb i'r anghenion diogelu yn ei ardal leol a sut i fodloni'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth genedlaethol.
- Mae gan bob un ei weithdrefnau diogelu ei hun, wedi'u harwain gan ganllawiau cenedlaethol, cyngor gan y bwrdd diogelu rhanbarthol, ei wasanaethau a'i drefniadau rheoli ei hun.
- Mae awdurdodau lleol yn rhannu gwybodaeth, cudd-wybodaeth ac arferion da gyda phartneriaid yn ardal eu bwrdd diogelu rhanbarthol, ac fel rhan o'r rhwydwaith genedlaethol o asiantaethau ledled Cymru.



22 local authorities

There are 22 geographically-defined local authorities in Wales. Each has a statutory duty to investigate and respond to reported abuse, harm or neglect of a person in their area. Responsibility for discharging this duty lies with the Statutory Director of Social Services and this includes duties to help people who have experienced abuse, harm or neglect and to develop arrangements and services designed to prevent abuse, harm and neglect.

Local authorities can ask partner agencies to undertake safeguarding enquiries on their behalf, and they are required to comply with such requests, unless to do so is incompatible with their own duties.

- Each local authority decides how to respond to the safeguarding needs in its local area and how to meet national guidelines and legislation.
- Each has its own safeguarding procedures, informed by national guidelines, regional safeguarding board advice, its own services and management arrangements.
- Local authorities share information, intelligence and good practice with partners in their regional safeguarding board area, and as part of the national network of agencies across Wales.



7 Bwrdd Iechyd Lleol a 3 Ymddiriedolaeth y GIG

Mae yna 7 bwrdd iechyd lleol, pob un yn cyd-ffinio gydag un ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru a 3 Ymddiriedolaeth y GIG gyda chylch gorchwyl cenedlaethol arbenigol.

Mae gan bob un ddyletswydd statudol i gyfrannu at eu bwrdd diogelu rhanbarthol gyda phartneriaid i wella diogelu, ac i sicrhau bod staff yn gweithredu mewn modd cyfrifol a dilyn y canllawiau wrth ddelio â materion diogelu.

Mae gan bob un o'r 7 bwrdd iechyd lleol ddyletswydd statudol i gyfrannu at ei fwrdd diogelu rhanbarthol, gan gydweithredu gyda phartneriaid lleol i wella trefniadau diogelu, ac i sicrhau bod staff yn gweithredu mewn modd cyfrifol o fewn y canllawiau wrth ddelio gyda phroblemau diogelu.

Mae pob bwrdd yn penderfynu yn lleol sut i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu ac â chyfarwyddyd lleol, gwasanaethau a hyfforddiant ar gyfer staff. Mae hyn ar sail gwybodaeth gan y bwrdd diogelu rhanbarthol lleol ac yn ôl cyfarwyddyd cenedlaethol, cyrff datblygu a gwella.

Mae 3 Ymddiriedolaeth y GIG ar draws Cymru, pob un gyda chylch gorchwyl arbenigol (gofal canser, iechyd cyhoeddus a gwasanaethau ambiwlans). Mae ganddyn nhw i gyd gyfrifoldebau diogelu tebyg.



7 Local Health Boards and 3 NHS Trusts

There are 7 local health boards, each co-terminous with one Regional Partnership Board area in Wales, and 3 NHS Trusts with a specialist national remit.

Each has a statutory duty to contribute to their regional safeguarding board, co-operate with partners to improve safeguarding, and ensure staff act responsibly and follow its guidance when dealing with safeguarding issues.

Each of the 7 local health boards has a statutory duty to contribute to its regional safeguarding board, co-operate with local partners to improve safeguarding arrangements, and ensure that staff act responsibly within its guidance when dealing with safeguarding issues.

Each board decides locally how to fulfil its safeguarding responsibilities, and has local guidance, services and training for staff. These are informed by the local regional safeguarding board and by national guidance, development and improvement bodies

There are 3 NHS Trusts across Wales each with a specialist national remit (cancer care, public health and ambulance services). They each have similar safeguarding responsibilities.



<https://www.gov.uk/hmpps/>

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

Mae gwasanaeth GCPEM yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu dedfryd llysoedd, naill ai yn y ddalfa neu yn y gymuned, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chamdriniaeth, esgeulustod a niwed.

Eu nod ydy gostwng ail-droseddu a risgiau i ddiogelu drwy adfer pobl drwy addysg a chyflogaeth.

Yn gwasanaethu Cymru a Lloegr gyfan mae gwasanaeth GCPEM yn gweithio mewn 6 uned ddaearyddol ledled Cymru.

Mae'r Gwasanaeth:

- Yn rhedeg gwasanaethau carchardai a phrawf
- Yn cynnal gwasanaethau adfer ar gyfer pobl sy'n gadael carchar
- Yn sicrhau bod cymorth ar gael i atal pobl rhag ail-droseddu
- Yn rheoli contractau gyda gwasanaethau carchardai y sector preifat megis y gwasanaeth cydymaith a thagio electronig
- Yn aelod statudol o Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ac yn gweithio gyda phartneriaid i gynnig a gwella diogelu yn yr ardaloedd lleol yn enwedig drwy adfer troseddwy.



<https://www.gov.uk/hmpps/>

HM Prison and Probation Service

The HMPP service works with partners to carry out the sentences given by the courts, either in custody or the community, including those concerned with abuse, neglect and harm.

They aim to reduce reoffending and risks to safeguarding by rehabilitating people through education and employment.

Covering all of England and Wales the HMPP service works in 6 geographically based delivery units across Wales.

The Service:

- Runs prison and probation services
- Runs rehabilitation services for people leaving prison
- Makes sure support is available to stop people reoffending
- Manages contracts with private sector prisons and services such as the prisoner escort service and electronic tagging
- Is a statutory member of Regional Safeguarding Boards and works with partners to deliver and improve safeguarding in the local areas, particularly through the rehabilitation of offenders.



<http://www.justice.gov.uk/about/hmcts/>

Gwasanaethau'r Farnwriaeth a Llysoedd

Mae'r Llysoedd a Thribiwnlys y Farnwriaeth yn gyfrifol am wrando a barnu ar faterion y gyfraith sifil, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â diogelu ac mae Gwasanaeth Llysoedd EM a Thribiwnlysoedd yn gyfrifol am weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theuluoedd yn Lloegr a Chymru.

Mae crwneriaid yn gyfrifol am ymchwilio i farwolaethau, cwestau, cyhoeddi tystysgrifau marwolaeth ac argymell camau gweithredu i atal neu i ddelio â darpar risgiau. Weithiau mae eu canfyddiadau yn berthnasol o asiantaethau diogelu. Mae pob awdurdodaeth yn cael eu hariannu a'u casglu drwy awdurdodau lleol.

Mae'r cyrff hyn yn annibynnol o asiantaethau eraill.

Mae trefniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bodoli ar gyfer cysylltu â chyrff diogelu er mwyn rhannu barn am effeithiolrwydd arferion diogelu proffesiynol a chyfreithiol.



<http://www.justice.gov.uk/about/hmcts/>

Judiciary and Courts Services

The Courts and Tribunals Judiciary is responsible for hearing and judging matters of criminal and civil law, including those involving safeguarding, and the HM Courts and Tribunals Service is responsible for the administration of criminal, civil, and family courts and tribunals in England and Wales.

Coroners are responsible for investigating deaths, inquests, issuing certificates of fact of death, and recommending actions to prevent or address future risks. Their findings are sometimes relevant to safeguarding agencies. Each jurisdiction is locally funded and resourced through local authorities.

These bodies are independent from other agencies.

There are national, regional and local arrangements for liaison with safeguarding bodies to share views about the effectiveness of professional and legal safeguarding practice.



4 Heddlu

Mae 4 o Heddluoedd yn gweithredu yng Nghymru. Maen nhw'n atebol i Swyddfa Gartref y DU.


- Mae'r 4 Heddlu sy'n gweithredu yng Nghymru (Dyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru) yn gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu pobl yng Nghymru. Mae ganddyn nhw gyfrifoldeb unigryw dros ymchwilio i droseddau yn erbyn pobl ac i weithredu camau amddiffynnol pan fo angen.
- Mae pob heddlu yn aelod statudol o'i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol.
- Mae pob heddlu yn gweithio gyda phartneriaid statudol lleol o dan reolaeth Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Cynorthwyr hyn hefyd gan Ganllawiau a Hyfforddiant Cenedlaethol y Coleg Plismona.



4 Police Forces

There are 4 geographically-based Police Forces in Wales. They are responsible to the UK Home Office.

- The 4 geographically-based Police Forces in Wales (Dyfed-Powys, Gwent, North Wales, and South Wales) work with partners to safeguard people in Wales. They have unique responsibilities for investigating crimes against people and taking protective action where necessary.
- Each force is a statutory member of its local Regional Safeguarding Board.
- Each force works with local statutory safeguarding partners under the governance of Regional Safeguarding Boards and complies with the Wales Safeguarding Procedures. This is also supported with National Guidance and Training from the College of Policing.




Partneriaid eraill

Mae gan bob sefydliad a gweithwyr proffesiynol gyfrifoldebau o dan y gyfraith i hyrwyddo diogelu neu ymateb i dystiolaeth o gam-drin, niwed neu esgeulustod, neu i sicrhau bod pryderon yn cael eu clywed a gweithredu camau i'w hunioni.

Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau:

- Darparwyr gofal yn y sector preifat a chyhoeddus
- Y gymuned leol a chyrff ffydd
- Cyrff ac undebau proffesiynol
- Cyrff sector cyhoeddus lleol, rhanbarthol a chenedlaethol drwy'r holl sector gofal



Other partners

All organisations and professionals in Wales have responsibilities in law for promoting safeguarding or responding to evidence of abuse, harm or neglect, or ensuring that concerns are heard and acted on.

For example this includes responsibilities on:

- Care providers in the voluntary and private sectors.
- Local community and faith bodies.
- Professional bodies and unions.
- Local, regional, and national public sector bodies throughout the care sector.



<https://heiw.nhs.wales>

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Mae AGIC yn Awdurdod Iechyd Arbennig o fewn GIG Cymru gyda rôl arweiniol yn y broses o ddatblygu a llunio gweithlu gofal iechyd yng Nghymru.

Ei ddiben ydy integreiddio a chynyddu arbenigedd a chpasiti i gynllunio, datblygu a chynorthwyo'r gweithlu iechyd - er mwyn sicrhau bod gan GIG Cymru y staff priodol yn meddu ar y sgiliau cywir i ddiwallu anghenion diogelu pobl a'u hanghenion iechyd ehangach.

Mae wedi ymrwymo i ymglymiad agored a chydweithrediadol gyda'r holl bartneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r diben hwn.



<https://heiw.nhs.wales>

Health Education and Improvement Wales

HEIW is a Special Health Authority within NHS Wales with a leading role in the education, development and shaping of the healthcare workforce in Wales.

Its purpose is to integrate, and grow expertise and capability in planning, developing, shaping, and supporting the health workforce – to ensure NHS Wales has the right staff with the right skills to meet people's safeguarding and wider health needs.

It is committed to open and collaborative engagement with all partners to ensure they fulfil this purpose.

Archwilio Cymru

Mae Archwilio Cymru yn archwilio sector cyhoeddus Cymru. Ei ddyletswydd statudol ydy archwilio sector cyhoeddus yn allanol. Ei rôl o ran diogelu ydy sicrhau pobl Cymru bod yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yn y maes hwn yn cael ei reoli'n dda, egluro sut y defnyddir arian cyhoeddus ac i ysbrydoli a grymuso'r sector cyhoeddus i wella.

Mae ganddo gangen fasnachol yn gwerthu gwasanaethau cynghori ac archwilio.

Mae'n cydweithio gydag arolygiaethau, awdurdodau a chyrff proffesiynol eraill er mwyn sicrhau bod ei waith yn ategu gweithgareddau arolygu, rheoleiddio a gwella eraill.

Mae trefniadau lleol a rhanbarthol yn bodoli er mwyn i Archwilio Cymru ac asiantaethau diogelu gysylltu â'i gilydd.

Audit Wales

Audit Wales audits the Welsh public sector. Its statutory duty is to externally audit the Welsh public sector. Its role with regard to safeguarding is to assure the people of Wales that public money spent in this area is being managed well, explain how public money is being used and to inspire and empower the public sector to improve.

It has a commercial arm selling advice and audit services.

It works collaboratively with other inspectorates, authorities and professional bodies to ensure that its work complements other inspection, regulation and improvement activities.

There are local and regional arrangements in place for liaison between Audit Wales and safeguarding agencies.



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

<https://careinspectorate.wales>

Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae cofrestrau AGC yn arolygu ac yn gweithredu camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau, yn cynnwys diogelu llesiant pobl Cymru. Mae hefyd yn rheoleiddio gofal oedolion, gofal plant a gwasanaethau chwarae, arolygu rhai gwasanaethau ac adolygu perfformiad awdurdodau lleol.

Mae AGC yn gorff statudol sy'n cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal, yn cynnwys diogelu, ar draws Cymru. Mae hefyd yn rheoleiddio gofal oedolion, gofal plant a gwasanaethau chwarae, yn arolygu rhai gwasanaethau ac yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol.

Mae'n cynnal adolygiadau arolygon thematig, yn cynnwys mewn meysydd cysylltiedig â diogelu ac mae'n cydweithio gydag arolygiaethau, awdurdodau a chyrrff proffesiynol eraill er mwyn sicrhau bod ei waith yn ategu gwaith arolygu, rheoleiddio a gwella eraill.

Mae trefniadau lleol a rhanbarthol yn bodoli ar gyfer cyswllt ad hoc rhwng AGC ac asiantaethau diogelu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eraill.



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

<https://careinspectorate.wales>

Care Inspectorate Wales

CIW registers, inspects and takes action to improve the quality and safety of services, including safeguarding, for the well-being of the people of Wales. It also regulates adult care, children's care and play services, inspects some services and reviews the performance of local authorities.

CIW is a statutory body which registers, inspects and takes action to improve the quality and safety of care services, including safeguarding, across Wales. It also regulates adult care, children's care and play services, inspects some services and reviews the performance of local authorities.

It carries out thematic inspection reviews including in areas concerned with safeguarding and it works collaboratively with other inspectorates, authorities and professional bodies to ensure that its work complements other inspection, regulation and improvement work.

There are local and regional arrangements in place for regular or ad hoc liaison between CIW and national, regional, and local safeguarding agencies.



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Corff statudol ydy AGIC sy'n rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y rhai a arolygwyd yn cwrdd â gofynion diogelu cenedlaethol ac amlygu meysydd sydd angen eu gwella yn cynnwys ym meysydd diogelu.

Mae'n gweithio ar y cyd ag arolygiaethau, awdurdodau a chyrff proffesiynol eraill er mwyn ategu gwaith arall o ran arolygu, rheoleiddio a gwella.

Mae trefniadau lleol a rhanbarthol yn bodoli er mwyn i asiantaethau diogelu ac AGIC gysylltu â'i gilydd.



Healthcare Inspectorate Wales

HIW is a statutory body that regulates and inspects NHS services and independent healthcare providers in Wales. This includes ensuring that those inspected meet national safeguarding requirements, and highlighting areas requiring improvement, including in areas of safeguarding.

It works collaboratively with other inspectorates, authorities and professional bodies to ensure that its work complements other inspection, regulation and improvement work.

There are local and regional arrangements in place for liaison between HIW and safeguarding agencies.



Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r 22 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) lleol yn gwella cydweithio ar draws gwasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n ofynnol i uwch swyddogion o gyrff allweddol i gymryd rhan neu gael eu gwahodd gymryd rhan er mwyn sicrhau bod rhwystrau i gydweithio'n effeithiol yn cael ei diddymu.

Mae'r 22 BGC lleol yn gyrff statudol. Aelodau statudol pob BGC ydy'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod tân ac achub a Chyfoeth Naturiol Cymru, yr Heddlu a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Caiff y gwasanaethau prawf perthnasol a chynrychiolydd sefydliadau gwirfoddol eu gwahodd.

Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys uwch swyddogion sy'n ceisio diddymu rhwystrau strategol i weithio ar y cyd ac i geisio gorfodi gweithredu ac mae eu cylch gwaith yn cwmpasu holl gyfrifoldebau gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys diogelu.



Public Service Boards

The 22 local PSBs improve joint working across public services in each local authority area in Wales. Senior officers from key bodies are required or invited to participate in ensuring that barriers to effective joint working are addressed

The 22 local PSBs are statutory bodies. Statutory members of each PSB are the local authority, local health board, fire and rescue authority and Natural Resources Wales, Police and Police and Crime Commissioner. Relevant probation services and a representatives of voluntary organisations are invited.

PSBs comprise senior officers who try to remove strategic barriers to joint working and to compel action and their remit covers all public services responsibilities including safeguarding.



Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae gan 7 rhanbarth yng Nghymru Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae eu cylch gorchwyl yn ffocysu ar iechyd a gofal cymdeithasol. Ei diben ydy deall beth ydy'r angen, datblygu strategaeth a rennir ac arwain i wella gwasanaeth ar draws eu rhanbarth, gan gynnwys diogelu.

Maen nhw'n cyd-ffinio â'r Byrddau Iechyd Lleol.

Mae pob un yn goruchwyllo rhaglen ranbarthol er mwyn hybu cyd-weithio gwell ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol gan weithio'n agos gyda'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Un agwedd o'r agenda hwn a rennir ydy hyrwyddo diogelu.



Regional Partnership Boards

RPBs each cover one of 7 regions in Wales. Their remit focuses on health and social care. Their purpose is to understand need, develop shared strategy and drive service improvements across their region, including in safeguarding.

They are co-terminous with Local Health Boards.

They each oversee a regional programme to promote better joint working across health and social care involving the public, private and voluntary sectors. Promoting safeguarding is one aspect of this shared agenda.



Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd

Mae gan bob un o'r 4 Heddlu yng Nghymru Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Eu rôl sylfaenol ydy sicrhau bod yr Heddlu yn cael ei gynnal yn effeithlon ac effeithiol yn eu hardal ac i fynnu bod y Prif Gwnstabl yn atebol am gyflenwi'r Cynllun Heddlu a Throsedd.

Mae ganddyn nhw rymoedd i gadw cymunedau yn ddiogel ac mae eu dyletswyddau yn cynnwys cydweithredu gyda phartneriaethau sy'n cadw cymunedau yn ddiogel er mwyn lleihau anrhefn a hynny'n cynnwys diogelu ac amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio.

Mae Statud yn gofyn bod gan bob un o Heddluoedd Gwent, Gogledd Cymru, De Cymru a Dyfed-Powys Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.



Police and Crime Commissioners

There is a Police and Crime Commissioner for each of the 4 Police Forces in Wales. Their primary role is to secure the maintenance of an efficient and effective Police Force within their area, and to hold the Chief Constable to account for the delivery of the Police and Crime Plan.

They have community-safety-related powers and duties including to co-operate with community-safety partnerships to reduce crime and disorder, including safeguarding and protection from abuse, neglect or harm.

Statute requires there to be a Police and Crime Commissioner for each of the Gwent, North Wales, South Wales and Dyfed-Powys Police Forces.



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

<https://www.olderpeoplewales.com>



Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

<https://www.childcomwales.org.uk>

Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gorff statudol sy'n gweithredu ar ran pobl hŷn yng Nghymru er mwyn:

- Hyrwyddo'u hawliau.
- Gwrando arnyn nhw i ddarganfod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Eu cynghori os ydyn nhw'n credu eu bod wedi cael eu trin yn annheg.
- Dylanwadu ar lywodraeth a sefydliadau eraill i wneud gwahaniaeth.
- Siarad ar ran pobl hŷn yng Nghymru ar faterion pwysig.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn gorff statudol sy'n gweithredu ar ran plant yng Nghymru er mwyn:

- Hyrwyddo hawliau plant.
- Gwrando ar blant i ddarganfod yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.
- Cynghori plant os ydyn nhw'n credu eu bod wedi cael eu trin yn annheg.
- Dylanwadu ar lywodraeth a sefydliadau eraill i wneud gwahaniaeth.
- Siarad ar ran plant yng Nghymru ar faterion pwysig.

Mae rolau Comisiynwyr Pobl Hŷn a Phlant yn seiliedig ar set o rymoedd cyfreithiol i'w cynorthwyo i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a mynnu eu bod yn atebol lle bo angen. Mae'r grymoedd hyn yn eu galluogi i adolygu arferion diogelu ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

<https://www.olderpeoplewales.com>



Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for Wales

<https://www.childcomwales.org.uk>

Older People and Children's Commissioner Wales

The Older People's Commissioner for Wales is a statutory body which who acts on behalf of their older people in Wales to:

- Promote their rights.
- Listen to them to find out what's important to them.
- Advise them if they think they've been treated unfairly.
- Influence government and other organisations to make a difference.
- Speak up for older people in Wales on important issues.

The Children's Commissioner for Wales is a statutory body which acts on behalf of children in Wales to:

- Promote children's rights.
- Listen to children to find out what's important to them.
- Advise children if they think they've been treated unfairly.
- Influence government and other organisations to make a difference.
- Speak up for children in Wales on important issues.

The Older People and Children's Commissioner's roles are underpinned by a set of legal powers to support them in reviewing the work of public bodies and holding them to account when necessary. These powers enable them to review safeguarding practice at national, regional, and local levels.



<http://www.ewc.wales>

Cyngor y Gweithlu Addysg

Corff statudol ydy'r CGA a rheoleiddiwr annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru. Mae'n cynnwys athrawon a staff cymorth dysgu mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, gweithwyr ieuenctid/ gweithwyr cymorth ieuenctid ac ymarferwyr dysgu yn y gweithle.

Mae'r Cyngor yn gwneud y canlynol:

- Cynnal Cofrestr o Ymarferwyr Addysg a Chod Ymddygiad Proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg.
- Archwilio a chlywed honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu droseddau perthnasol a allai godi amheuan am ffitrwydd ymarferydd cofrestredig i ymarfer.
- Achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon a monitro a ydyn nhw cydymffurfio â'r meini prawf cenedlaethol.
- Cynnig cyngor i Lywodraeth Cymru.
- Hyrwyddo gyrfaedd yn y gweithlu addysg.

Mae rhaid i'w holl weithgareddau ystyried cwestiynau polisi diogelu ac ymarfer y gweithlu addysg.



<http://www.ewc.wales>

Education Workforce Council

The EWC is a statutory body, and the independent regulator for the education workforce in Wales. It covers teachers and learning support staff in school and further education settings, qualified youth/youth support workers, and work-based learning practitioners.

The Council:

- Maintains a Register of Education Practitioners and a Code of Professional Conduct and Practice for the education workforce.
- Investigates and hears allegations of unacceptable professional conduct, serious professional incompetence or relevant criminal offences that might call into question a registered practitioner's fitness to practise.
- Accredits programmes of initial teacher education and monitor their compliance with national criteria.
- Provides advice to the Welsh Government.
- Promotes careers in the education workforce.

All of its activities need to take into account questions of safeguarding policy and practice for the education workforce.



<https://www.estyn.gov.wales>

Estyn

Estyn ydy arolygiaeth statudol addysg a hyfforddiant Cymru. Mae'n cynorthwyo darparwyr addysg a hyfforddiant drwy gynnig cymorth, arolygu ac adeiladu capasiti.

Mae'n arolygu ansawdd a safonau yn cynnwys diogelu mewn ysgolion, addysg bellach, dysgu yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth lleol, addysg athrawon a dysgu yn seiliedig yn y gweithle.

Mae hefyd yn ymgymryd ag adolygiadau thematig o'r problemau sy'n wynebu'r sector megis diogelu ac yn cynghori Llywodraeth Cymru.

Mae'n cydweithredu gydag arolygiaethau, awdurdodau a chyrff proffesiynol eraill er mwyn sicrhau bod ei waith yn ategu gweithgareddau arolygu, rheoleiddio a gwella eraill.

Mae trefniadau lleol a rhanbarthol yn bodoli er mwyn i Estyn ac asiantaethau diogelu eraill gysylltu â'i gilydd ad hoc.



<https://www.estyn.gov.wales>

Estyn

Estyn is the statutory education and training inspectorate for Wales. It supports education and training providers through advice, inspection, and capacity building.

It inspects quality and standards including for safeguarding in schools, further education, community learning, local government education services, teacher training and work-based learning.

It also undertakes thematic reviews of issues facing the sector such as safeguarding and advises Welsh Government.

It works collaboratively with other inspectorates, authorities and professional bodies to ensure that its work complements other inspection, regulation and improvement activities.

There are local and regional arrangements in place for regular or ad hoc liaison between Estyn and safeguarding agencies



<https://socialcare.wales>

Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gorff cenedlaethol statudol sy'n gosod safonau ar gyfer gofal a chymorth gweithlu, helpu i ddatblygu'r gweithlu, rhannu arferion da a chynnig gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau eraill. Mae diogelu yn faes allweddol o'i waith a sail ei flaenoriaethau diogelu ydy cysylltiad rheolaidd gyda BSIC a byrddau rhanbarthol.

Yn ychwanegol, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gydag eraill i wella gwasanaethau ym meysydd y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol.
- Rhannu arferion da gyda'r gweithlu er mwyn iddyn nhw gynnig yr ymateb gorau.
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gael tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda.
- Darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd a sefydliadau eraill.




<https://socialcare.wales>

Social Care Wales

Social Care Wales is a statutory national body which sets standards for the care and support workforce, helps develop the workforce, shares good practice and provides information for the public and other organisations. Safeguarding is a key area of its work and it is informed on its safeguarding priorities by regular liaison with NISB and regional boards.

Additionally, Social Care Wales:

- Works with others to improve services for areas agreed as a national priority.
- Shares good practice with the workforce so they can provide the best response.
- Sets priorities for research to get evidence of what works well.
- Provides information for the public and other organisations.




Partneriaethau Diogelwch Cymunedau

Mae'r PDC yn gyrff statudol a sefydlwyd yn ôl ffiniau awdurdodau lleol ar draws Cymru. Grwpiau o sefydliadau lleol ydyn nhw sy'n cydweithio i ostwng y nifer o droseddau a gwella diogelwch. Mae hyn yn cynnwys diogelu a gostwng niwed, esgeulustod a chamdriniaeth.

Arweinir y PDC gan awdurdodau lleol a'r aelodaeth yn cynnwys Heddluoedd, Awdurdodau Tân ac Achub a gwasanaethau lechyd a gwasanaethau Prawf. Maen nhw hefyd yn gweithio'n agos gydag asiantaethau Cyfiawnder Troseddol, a'r sector gwirfoddol a busnes.

Mae'r PDC yn arwain ar reoli strategol, comisiynu asesiadau strategol diogelwch cymuned a datblygu cynlluniau ar gyfer gostwng trosedd ac anhrefn – yn cynnwys gostwng niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

Arweinir trosolwg y perfformiad yn erbyn targedau gostwng troseddu a chyflenwi gwasanaethau gan y PDC.




Community Safety Partnerships

CSPs are statutory bodies set up according to local authority boundary areas across Wales. They are groups of local organisations working together to reduce crime and improve safety. This includes safeguarding and reducing harm, neglect and abuse.

CSPs are led by local authorities and membership includes Police bodies, Fire and Rescue Authority, and Health and Probation services. They also work closely with other Criminal Justice agencies, and the voluntary and business sector.

CSPs lead on the local strategic management, commissioning of the local community-safety strategic assessments, and the development of local delivery plans for crime and disorder reduction – including reducing harm, abuse and neglect.

The oversight of performance against crime-reduction targets and the delivery of services is led by the CSP.




Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Grŵp anstatudol cenedlaethol ydy hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Datblygodd set o weithdrefnau diogelu a argymhellwyd ar gyfer partneriaid ar draws Cymru yn 2017 ac mae'n sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddarau'n gyson gan sicrhau hyfforddiant a chymorth i'w gweithredu.

Mae'r gweithdrefnau yn adlewyrchu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ynghyd â chanllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl.

Cyfrifoldeb partneriaid lleol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol ydy cytuno'n ffurfiol ar unrhyw weithdrefnau lleol yn seiliedig ar yr adnoddau cenedlaethol hyn.




Wales Safeguarding Procedures Project Board

This is a non-statutory national group involving representatives from each of the Regional Safeguarding Boards. It developed a set of recommended safeguarding procedures for partners across Wales in 2017 and it ensures these are updated regularly, and that there is national training and support to implement them.

The procedures reflect the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the accompanying Working Together to Safeguard People guidance.

It is up to local partners and Regional Safeguarding Boards to formally agree any local procedures based on these national resources.




Cyrff cynrychioliadol â Ddiddordeb Mewn Diogelu

Er nad oes ganddyn nhw gyfrifoldeb eccliwsif dros ddiogelu, mae yna lawer o gyrff sy'n ymwneud â chynrychioli aelodau a hyrwyddo arferion da sy'n cyfrannu at wella diogelu fel rhan o'u gwaith yng Nghymru.

Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol,
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru,
- Cydffederasiwn GIG Cymru.



Representative Bodies with an Interest in Safeguarding

Although they do not have an exclusive safeguarding responsibility, there are many bodies concerned with representing members and promoting good practice who contribute to improving safeguarding as part of their work in Wales.

For example, these include:

- The Association of Directors of Social Services,
- The Welsh Local Government Association,
- The Association of Directors of Education in Wales,
- The Welsh NHS Confederation.



<https://wcva.cymru>

Rhwydwaith CGGC (WCVA) ar gyfer Diogelu

Nod Rhwydwaith Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar gyfer Diogelu ydy hyrwyddo a datblygu arferion da ym maes diogelu ar draws y sector gwirfoddol yng Nghymru.

Yn bwriad ydy i lysgenhadon diogelu gydweithio i rannu gwybodaeth a datblygu arferion da ym mhob maes diogelu a chreu deunyddiau hyfforddi rhagorol ynghyd â dulliau rhagorol o'u cyflenwi. Ei nod ydy:

- Rhannu gwybodaeth gyffredinol am ddiogelu.
- Hyrwyddo diogelu yn gyson ac yn eang ar draws mudiadau gwirfoddol
- Darparu gwybodaeth ar gyfer unrhyw gynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol ar fyrddau diogelu rhanbarthol.
- Darparu modd o raeadru gwybodaeth o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Comisiwn Elusennau i'r sector gwirfoddol.
- Hyrwyddo arferion da ym meysydd diogelu a hyfforddiant ynghyd â deunyddiau hyfforddi rhagorol a dulliau rhagorol o gyflenwi.

Mae'n cwrdd i rannu'r hyn a ddysgwyd ac i glywed gan siaradwyr gwadd am bynciau perthnasol i ddiogelu.



<https://wcva.cymru>

WCVA Safeguarding Network

The WCVA Safeguarding Network aims to promote and develop good practice in safeguarding across the voluntary sector in Wales.

The intention is that safeguarding ambassadors work together to share information and develop good practice in all areas of safeguarding, and create excellent training materials and delivery methods. It aims to:

- Share general safeguarding information.
- Promote safeguarding consistently and widely across voluntary organisations.
- Inform any voluntary sector representation on regional safeguarding boards.
- Provide a means to cascade National Independent Safeguarding board and Charity Commission information to the voluntary sector.
- Promote good practice in both safeguarding practice and training with excellent training materials and delivery methods.

It meets to share learning and hear from guest speakers on relevant topics relating to safeguarding.



<https://phw.nhs.wales/services-and-teams/national-safeguarding-team-nhs-wales/>

Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru)

Mae'r Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru) yn cynnwys Doctoriaid, Nyrsys a Meddyg Teulu Arweiniol Cenedlaethol dynodedig. Mae'n atebol i Iechyd Cyhoeddus Cymru am ei waith.

Drwyddo mae gweithwyr proffesiynol dynodedig yn cynnig ffynhonnell o gyngor iechyd arbenigol annibynnol i wasanaethau'r GIG yng Nghymru. Maen nhw'n cynnig arbenigedd iechyd annibynnol penodol wrth ymgymryd ag adolygiadau achos o gam-drin ac esgeuluso difrifol a hunanladdiad.

Mae'n delio â phlant ac oedolion mewn perygl. Mae'r tîm yn cynorthwyo rhwydwaith cenedlaethol i hyrwyddo ymchwiliad gwerthfawrogol a dysg drwy rannu arferion da ar draws Cymru.



<https://phw.nhs.wales/services-and-teams/national-safeguarding-team-nhs-wales/>

Wales National NHS Safeguarding Team

The National Safeguarding Team (NHS Wales), comprises designated Doctors, Nurses and a National GP Lead. It is accountable to Public Health Wales for its work.

Through it, designated professionals provide a source of independent expert health advice to NHS services in Wales. They provide particular independent health expertise in undertaking case reviews of serious abuse and neglect and suicide.

It is concerned with both children and adults at risk. The team supports a national network promoting appreciative inquiry and learning through sharing good practice from across Wales.



<https://www.violencepreventionwales.co.uk>

Uned Atal Trais Cymru

Mae Uned Atal Trais Cymru yn gorff anstatudol a ariennir gan y Swyddfa Gartref. Mae'r tîm craidd yn cynnwys aelodau o heddluoedd, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Adran Fewnfudo y Swyddfa Gartref a'r sector gwirfoddol.

Mae'n cynnig cyngor a chymorth i gymunedau lleol ac yn casglu tystiolaeth i ddatblygu ymyriadau sy'n ffocysu ar achosion sylfaenol trais, eu gwerthuso a'u graddio i helpu pobl a chymunedau drwy'r holl system ymateb i atal trais. Mae eu gwaith yn berthnasol i lawer o gyfrifoldebau diogelu asiantaethau lleol a rhanbarthol.



<https://www.violencepreventionwales.co.uk>

Wales Violence Prevention Unit

The Wales Violence Prevention Unit is a non-statutory body funded from the Home Office. The core team comprises members from police forces, the Police and Crime Commissioner, Public Health Wales, HMPPS, Home Office Immigration and the voluntary sector.

It provides advice and support for local communities and builds evidence to develop interventions focused on the underlying causes of violence, evaluate and scale them up to help people and communities through a whole system response to the prevention of violence. Their work is relevant to much of the safeguarding responsibilities of local and regional agencies.



<https://gov.wales/live-fear-free>

Ymgynghorwyr Cenedlaethol Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

Mae Ymgynghorwyr Cenedlaethol VAWDASV yn grŵp anstatudol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac yn gweithio ar ei rhan i godi ymwybyddiaeth, gyrru gwelliant mewn gwasanaethau yn genedlaethol ac yn lleol, adeiladu capasiti ac ymgorffori arferion da.

Mae eu gwaith yn debyg iawn i waith cyrff diogelu o wella pethau ar draws Cymru yn cynnwys gwaith gyda phobl sydd wedi dioddef niwed, camdriniaeth ac esgeulustod a'r cyflawnwyr.



<https://gov.wales/live-fear-free>

Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence National Advisors

VAWDASV National Advisors are a non-statutory group funded by and working on behalf of Welsh Government to raise awareness, drive service improvement at a national and local level, build capacity and embed good practice.

Their work is very closely related to the improvement work of safeguarding bodies across Wales including work with victims and perpetrators of harm, abuse and neglect.



**Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru**

**National Independent
Safeguarding Board Wales**